| | |
|---|---|
| **Teitl yr Ymgynghoriad:** | **CYNIGION I YMESTYN YSTOD OEDRAN YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF** |
| **Disgrifiad Cryno o'r cynnig:** | Mae'r Cyngor yn cynnig:<br><br>• Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof o 4-11 oed i 3-11 oed drwy sefydlu uned feithrin cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ysgol o fis Medi 2026. |
| **Pam mae newid yn cael ei gynnig?** | Nod strategaeth "Cymraeg 2050" Llywodraeth Cymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n nodi targed deng mlynedd i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg.<br><br>Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2022, mabwysiadodd y Cabinet darged o 25-29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2031, yn gyson â'r targed a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r targed o 25-29% a fabwysiadwyd drwy'r CSCA. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwyso uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion yn sgil y pandemig.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun gwaith i fynd i'r afael â phob un o ddeilliannau'r CSCA. Mae Deilliant 1 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu nifer y plant meithrin/plant tair oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae Deilliant 1 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu nifer y plant meithrin/plant tair oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ers blynyddoedd lawer, mae nifer y plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof sy'n cymryd lleoedd cyfrwng Cymraeg adeg mynediad i'r dosbarth Derbyn wedi rhagori ar nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol, sef 60 o leoedd.<br><br>Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r plant hyn wedi cymryd lle mewn ysgolion eraill gan gynnwys ysgolion sy'n |

| | |
|---|---|
| | agosach at eu cyfeiriad cartref ac ysgolion sy'n cynnig addysg feithrin.<br><br>Wrth i nifer y disgyblion sy'n cofrestru mewn addysg gynradd ostwng, mae gallu plant i gael eu derbyn i ysgolion eraill wedi cynyddu ac o ganlyniad mae'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi gostwng. Er nad yw cofrestru mewn dosbarth meithrin yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer derbyn i addysg gynradd, mae'n amlwg mai ychydig o deuluoedd sy'n trosglwyddo i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar ôl cofrestru mewn dosbarth meithrin.<br><br>Mae'r diffyg darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn ardal gyfagos Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn rhwystr sylweddol i dyfu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn mynd yn groes i ganlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a chynllun CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.<br><br>Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes wedi'i sefydlu ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen, lleoliad gofal plant nas cynhelir ac sydd mewn adeilad pwrpasol ei hun.<br><br>Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i ddod yn fwy cynaliadwy. |
| **Ydy'r newid arfaethedig yn newid dros dro neu barhaol?** | Byddai'r newid arfaethedig yn arwain at sefydlu'r ddarpariaeth feithrin yn barhaol yn yr ysgol. |
| **Pryd y bwriedir i'r newid ddod i rym?** | Byddai'r newid arfaethedig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2026. |
| **Ble mae modd gweld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad?** | Gallwch weld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad yn:<br><br>www.cardiff.gov.uk/ysgolcoedygofproposals |

Rydym yn deall y gall newidiadau i ysgolion effeithio ar y gymuned y maent ynddi neu y mae'n ei gwasanaethu. Asesir effaith newidiadau drwy gynhyrchu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Caiff y canlynol eu hystyried:

**Pa ardal ddaearyddol sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned?**

Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cynnwys Treláí, Y Tyllgoed, a rhannau o Landaf, Sain Ffagan, Radur a Phentre-poeth.

**Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

Ym mis Ionawr 2024 (CYBLD) roedd 455 o blant oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Roedd y plant hyn ar gofrestri'r ysgolion canlynol.

**Ysgolion cyfrwng Cymraeg (CC) neu Iaith Ddeuol (IDd) a fynychwyd gan y 455 o ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Coed-y-Gof (CYBLD Ionawr 2024)**

| Enw'r ysgol cyfrwng Cymraeg/ iaith ddeuol | Nifer y disgyblion yn yr ysgol CC/ IDd | % o'r 455 o ddisgyblion sydd mewn ysgol CC/ IDd |
|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | 188 | 41% |
| Ysgol Gynradd Groes-Wen | 10 | 2% |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 48 | 11% |
| Ysgol Pencae | 27 | 6% |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 64 | 14% |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill | 118 | 26% |
| **Cyfanswm y disgyblion** | **455** | |

**Cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

Mae'r 212 o ddisgyblion a fynychodd Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn byw yn nalgylchoedd yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg canlynol (CYBLD 2024):

| **Dalgylch** | **Nifer y Disgyblion** | **Canran poblogaeth Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof** |
|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | 188 | 88.7% |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 13 | 6.1% |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 3 | 1.4% |
| Allan o'r sir | 2 | 0.9% |
| Ysgol Pencae | 2 | 0.9% |
| Ysgol Creigiau | 1 | 0.5% |
| Ysgol Hamadryad | 1 | 0.5% |
| Ysgol Glan Ceubal | 1 | 0.5% |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 1 | 0.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 212 | 100% |

**Unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya e.e., clwb ieuenctid/grŵp chwarae**

Mae gan yr ysgol ystafell gymunedol sy'n cael ei defnyddio gan grwpiau fel "Aros a Chwarae" a Rhianta Caerdydd yn ystod oriau ysgol.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae Menter Caerdydd yn cynnal cynllun chwarae am ddim yn yr ysgol am ddwy awr, pedwar bore yr wythnos.

**Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol.**

Mae'r ysgol yn cynnal amrywiaeth o grwpiau a gweithdai i rieni'r ysgol a'r rhai yn y gymuned yn ystafell gymunedol yr ysgol, mae enghraifft o weithgareddau isod:

| | |
|---|---|
| 19.09.24 | Rhianta Caerdydd: Rhaglen Rhianta 11 wythnos (Anghenion Ychwanegol) i deuluoedd, yn ein hystafell gymunedol. 9.15-11.15am bob bore Iau |
| 26.09.24 | Sesiwn galw heibio i gwrdd â'r tîm athrawon arbenigol |
| 20.11.24 | Cymorth llythrennedd a rhifedd gartref gan dîm cymorth dysgu athrawon arbenigol 1.30-3pm |
| 15.01.25 | Cwrs coginio pedair wythnos i rieni sy'n cael ei gynnal gan Fenter Caerdydd |
| 16.01.25 | Sesiwn "galw heibio" i rieni gyda nyrs yr ysgol, yn yr ystafell gymunedol, 9-11am |
| 17.01.25 | Gweithdy i rieni gan athro iechyd a lles arbenigol: "Gwobrwyo, cosbi a chanlyniadau" |
| 04.02.25 | Cwrs coginio rhieni a phlant "Cookstars" – cwrs tair wythnos |
| 20.03.25 | Seicolegydd Addysg, "Hyfforddiant Emosiynol" (gweithdy i rieni) |

Yn ogystal, mae banc bwyd ar y safle, mae'r ysgol yn dosbarthu hamperi Nadolig ac yn rhoi parseli i deuluoedd mewn angen ac yn gweithio gyda Phartneriaeth Ddysgu Trelái a Chaerau i ddatblygu adnoddau cymunedol i deuluoedd.

Mae gan yr ysgol stoc eang o wisg ysgol Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ddisgyblion. O fewn y banc dillad mae amrywiaeth eang o ddillad plant gan gynnwys esgidiau, pyjamas, dillad hamdden a banc teganau.

Mae llyfrgell yr ysgol ar agor ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i alluogi rhieni i ddarllen gyda'u plant ac i fenthyg llyfrau. Mae yna ystod eang o lyfrau sy'n addas ar gyfer brodyr a chwiorydd iau a hŷn, ac i rieni.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gymraeg Nant Caerau ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr i ddatblygu gardd gymunedol a chyfleuster Bocs Bwyd

Mawr yng Nghaerau. Nod y prosiect hwn yw datblygu gardd gymunedol a banc bwyd i deuluoedd yn yr ardal, gyda chynllun tymor hwy ar gyfer cyfnewid gwisgoedd ysgol, golchi dillad a chegin deuluol. Er nad yw'n agos at yr ysgol yn ddaearyddol, mae llawer o deuluoedd yr ysgol yn byw yng Nghaerau a Threlái.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, canu yn nigwyddiad goleuo coeden Nadolig y Tyllgoed, canu yn y cartref gofal lleol, bod yn "hyrwyddwyr cymunedol" trwy gasglu sbwriel yn yr ardal, plannu coed gyda Choed Caerdydd yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed a Bishop Hannon Drive.

### A yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol?

Mae'r ysgol yn defnyddio sawl cyfleuster cymunedol i gyfoethogi’r modd y mae’n cyflwyno’r cwricwlwm, er enghraifft, Canolfan Hamdden y Tyllgoed (gwersi nofio), Llyfrgell a Hyb Lawnt y Tyllgoed ac Eglwys yr Atgyfodiad yn Nhrelái.

| **Effaith ddisgwyliedig ar Lety, Cyfleusterau neu Wasanaethau** | | |
|---|---|---|
| **Os yw llety, cyfleusterau neu wasanaethau yn cael eu darparu gan ysgol, a ddisgwylir unrhyw newidiadau?** ***Cynnydd / gostyngiad / darparwyr neu gyfleusterau amgen pe bai ysgol yn cau*** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | **Sut y gellid lliniaru hyn pe bai angen** |
| Nid yw'r ysgol yn rhagweld unrhyw newidiadau yn y defnydd o'r gymuned pe bai'r cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin yn mynd yn ei flaen. Mae digon o le yn adeilad yr ysgol i ddarparu ar gyfer y dosbarth meithrin heb effeithio ar yr Ystafell Gymunedol. Yn ogystal, nid yw'r ysgol yn rhagweld newid yn ei defnydd o gyfleusterau yn y gymuned. | Niwtral | |
| **Os na all ysgol ddarparu llety, cyfleusterau a gwasanaethau mwyach, fyddai neu allai cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gael eu gwella (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae gwyliau)** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol wahanol** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Sut byddai/gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag ysgol wahanol ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut bydd disgyblion (ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig) yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |
| **Effaith ddisgwyliedig ar Drafnidiaeth a Seilwaith** | | |
| **Oes newidiadau o ran pellter/amser teithio yn cael eu rhagweld ar gyfer disgyblion?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Byddai’r cynnig yn dileu'r angen i deuluoedd deithio i wahanol safleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin, gan effeithio’n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau logistaidd y gallai ceisio darparwr gofal plant arall eu hachosi; | Cadarnhaol | |
| **Effaith ar iechyd a lles e.e. os byddai'r disgyblion yn fwy neu’n llai abl i gerdded neu seiclo i'r ysgol** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Byddai'r cynnig yn caniatáu i blant gael mynediad at ddarpariaeth feithrin yn agosach at adref a gallai gynyddu nifer y plant sy'n fwy abl i gerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol. | Cadarnhaol | |
| **Unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Ni ragwelir unrhyw newidiadau i ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig hwn. | Niwtral | |

| **Effaith Ddisgwyliedig ar Randdeiliaid** | | |
|---|---|---|
| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer teuluoedd â phlant oed ysgol, sy'n byw yn y dalgylch?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Mae manteision ac anfanteision wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori | Cadarnhaol | |
| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer cymdogion yr ysgol?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Mae manteision ac anfanteision wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori | Cadarnhaol | |
| **Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer y gymuned ehangach, gan gynnwys unrhyw faterion diogelwch?** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Mae manteision ac anfanteision wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori | Cadarnhaol | |
| **Unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w nodi** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** | |
| Dd/B | | |

| **I Gloi** |
| --- |
| Byddai'r newid arfaethedig yn fuddiol yn gyffredinol.<br><br>Byddai sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol a byddai'n cyd-fynd â chanlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.<br><br>Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i fod yn fwy cynaliadwy.<br><br>Byddai plant ifanc a theuluoedd yn elwa ar sefydlu darpariaeth feithrin a byddai'r ysgol yn parhau i ddarparu ystod o weithgareddau cymunedol pe bai'r newidiadau i sefydlu darpariaeth feithrin yn cael eu gwneud. |

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at y nodau lles:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Nodau | Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| **Ffyniannus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Byddai disgwyl i'r manteision canlynol ddeillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol:<br>• Lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu teuluoedd lleol;<br>• Dileu'r angen i deithio i wahanol safleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin, gan effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau logistaidd y gallai ceisio darparwr gofal plant arall eu hachosi;<br>• Parhad o ran y ddarpariaeth i gefnogi ac ymgorffori ethos a diwylliant yr ysgol;<br>• Helpu i feithrin cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cyntaf posibl;<br>• Hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus);<br>• Nodi grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion dysgu yn gynt;<br>• Drwy gael uned blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, byddai mantais o ran lles a dysgu disgyblion;<br>• Byddai parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei sicrhau, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol. |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| **Iachach**<br>Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol | Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, i annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.<br><br>Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly’n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i’r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy’n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.<br><br>Bydd dileu'r angen i deithio i wahanol safleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin yn effeithio’n gadarnhaol ar amser rhieni ac yn lleihau'r anawsterau logistaidd y gallai ceisio darparwr gofal plant arall eu hachosi.<br><br>Gall swyddogion Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo datblygiad y Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o waith gweithredu'r cynnig ehangu lleoedd.<br><br>Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol. |
| **Cyfle**<br>Cymdeithas sy’n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u | Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn nodi’r themâu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan ganolbwyntio'n gryf ar roi plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn eu huchelgeisiau ar gyfer y ddinas. Yn ganolog i hyn y mae’r gred unply mai addysg dda yw'r llwybr |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | mwyaf sicr allan o dlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gymorth cadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.<br><br>Mae addysg yn cael ei nodi'n gyson fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd. Mae'n hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol mewn trechu tlodi ac anfantais.<br><br>Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cynnig dull cyson o addysgu a chynllunio ac yn cyfrannu at godi safonau trwy'r ysgol.<br><br>Byddai disgwyl i'r manteision canlynol ddeillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol:<br><br>• Lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu teuluoedd lleol;<br>• Dileu'r angen i deithio i safleoedd eraill ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau logistaidd a allai ddod yn sgil chwilio am ddarparwr gofal plant arall.<br>• Parhad o ran y ddarpariaeth i gefnogi ac ymgorffori ethos a diwylliant yr ysgol;<br>• Helpu i feithrin cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cyntaf posibl;<br>• Hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus);<br>• Nodi grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion dysgu yn gynt;<br>• Drwy gael uned y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, bydd mantais o ran lles a dysgu disgyblion. Sicrheir parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.<br><br>Felly, rhagwelir y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar ddarparwyr gofal plant |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| | cofleidiol lleol, fel Gofal Plant Cwtch Pentrebaen, i ateb y galw gan deuluoedd lleol. |
| **Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | Disgwylir y byddai'r cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg.<br><br>Byddai sefydlu dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol ac yn cyd-fynd â chanlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.<br><br>Byddai'r cynnig yn cynyddu dewis rhieni yn yr ardal ac yn cefnogi'r ddarpariaeth gynyddol o addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddai'n gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i deuluoedd lleol ac yn opsiwn mwy deniadol i rieni yn yr ardal drwy leihau amser a chostau teithio, potensial ar gyfer gwell gwasanaethau cofleidiol i rieni sy'n gweithio, a byddai'n gweithio i wreiddio'r ysgol yn y gymuned leol.<br><br>Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes wedi'i sefydlu ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen a gall teuluoedd cymwys gael mynediad at ofal plant a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yng Nghylch y lleoliad.<br><br>Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i ddod yn fwy cynaliadwy.<br><br>Byddai'r cynigion hefyd yn rhoi'r opsiwn i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ystyried a yw'n dymuno cynnig darpariaeth gofal plant cofleidiol o'r safle ar y cyd â phartneriaid eraill neu ddefnyddio'r gofod i ddarparu gweithgareddau cymunedol pe na bai angen mwy o leoedd meithrin.<br>Cynigir y byddai'r dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn cynnal 24 o leoedd rhan amser i |

| **Nodau** | **Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant** |
|---|---|
| | ddechrau, ond gyda digon o gapasiti i ehangu.<br><br>Mae'r ysgol yn rhan o grŵp peilot Cefnogi Ysgolion CSCA, sy'n cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion yn eu dosbarthiadau Derbyn i hyrwyddo'r cynnig addysg Gymraeg yn y gymuned drwy ddiwrnodau agored, digwyddiadau cymunedol, taflenni hyrwyddo ac ati i wneud rhieni yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi gwybod i rieni lleol bod darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried ar gyfer Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof a sut y gallant fynegi eu barn ar hyn.<br><br>Bydd y safbwyntiau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn llawn a bydd yr asesiad o effaith yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r rhain.<br><br>Os bydd y cynigion yn cael eu gweithredu, bydd dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n derbyn lleoedd yn yr uned feithrin cyfrwng Cymraeg yn cael eu hadolygu a bydd nifer y lleoedd yn cynyddu yn ôl yr angen.<br><br>Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg cychwynnol wedi'i gynnal a gallwch ei weld yn www.cardiff.gov.uk/ysgolcoedygofproposals<br><br>Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen. |
| **Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang | Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Mae hyn yn golygu bod rhanddeiliaid yn gwybod sut y bydd y cynllun arfaethedig yn helpu i gyflawni nodau busnes, nodau strategol a chynlluniau'r Awdurdod. |

| Nodau | Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| **Cydweithredu**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles. | Byddai'r newid arfaethedig yn caniatáu mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn parhau i gael ei ddarparu i bob disgybl<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltu helaeth a chynnwys disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd ysgolion yn diwallu anghenion defnyddwyr a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu yn y byrdymor byr ac yn y dyfodol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymunedol yn ganolbwynt i bob ysgol, a chreu amgylchedd sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Mae sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cefnogi amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Mae'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi cynnwys rhanddeiliaid (unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynnig, yn arbennig y rhai y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd) yn y cynnig. |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu anghenion yn yr hirdymor. | Sicrhau cynaliadwyedd addysg yn y gymuned yn yr hirdymor a sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion i ddiwallu'r anghenion nawr ac yn y dyfodol. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion. | Sicrhau dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn yr hirdymor. |